# Brigiadau o achosion o norofeirws mewn wystrys amrwd a sut i’w rheoli

Canllawiau i weithredwyr busnesau bwyd ar ymateb yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i frigiadau o achosion o norofeirws, sut i alw a thynnu cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt yn ôl, a chyngor ar gyfyngu ar ledaeniad norofeirws mewn busnesau bwyd.

## Pam mae angen rheoli risg

Mae rheoli risg digwyddiadau a brigiadau o achosion (outbreaks) mewn perthynas â bwyd yn broses ddeinamig, sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac sy’n ystyried amgylchiadau unigol y digwyddiad. Er y gall fod dulliau cyffredin, nid oes un dull o reoli risg sy’n addas ar gyfer pob sefyllfa.

## Ymateb i frigiadau o achosion o norofeirws

Pan fydd brigiad o achosion o norofeirws, byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Yn gyffredinol, rydym yn argymell atal cynaeafu wystrys am 28 diwrnod o’r dyddiad y cynaeafwyd y swp dan sylw, lle mae tystiolaeth epidemiolegol yn cysylltu achosion â’r swp, a lle mae gwybodaeth olrhain yn cysylltu’r swp ag ardal gynhyrchu benodol. Mae hyn er mwyn atal rhoi mwy o gynhyrchion a allai fod wedi’u halogi ar y farchnad.

Ystyrir hyn fel dull cymesur o reoli risg o ystyried:

- diffyg terfyn rheoleiddiol
- bod norofeirws heintus yn anweithredol dros amser.

## Cau ardaloedd cynaeafu dros dro

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol neu’r Cyngor Dosbarth perthnasol yw dyroddi hysbysiad cau dros dro.

## Tynnu a galw’r wystrys yr effeithir arnynt yn ôl

Gan fod wystrys amrwd yn gynnyrch byw gydag oes silff fer, pan fydd brigiad o achosion, yn aml nid oes unrhyw gynnyrch cysylltiedig ar ôl ar y farchnad erbyn i’r hysbysiadau am salwch a amheuir ddod i law.

Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gyfrifol am dynnu a/neu alw unrhyw gynhyrchion y maent yn amau eu bod yn anniogel yn ôl. Gall ein canllawiau ar ddigwyddiadau bwyd a galw neu dynnu cynnyrch yn ôl fod o gymorth i weithredwyr busnesau bwyd

## Profi wystrys am norofeirws

Mae dull prawf (ISO 15216) yn gallu pennu lefel norofeirws mewn wystrys. Fodd bynnag, nid yw’r dull hwn yn gallu gwahaniaethu rhwng norofeirws heintus a norofeirws nad yw’n heintus.

Nid ydym yn defnyddio profion norofeirws ar hyn o bryd i lywio ein hymateb yn ystod brigiad o achosion o norofeirws. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr **ymateb polisi i'r asesiad risg strategol**.

# Profi wystrys am norofeirws ar gyfer ymchwil

Lle bo wystrys o sypiau sy'n gysylltiedig â brigiad o achosion ar gael i'w profi, rydym yn cefnogi eu profi at ddibenion ymchwil gan y gallai hyn gyfrannu at leihau ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r asesiad risg.

# Cyngor pellach i weithredwyr busnesau bwyd

## Beth yw symptomau norofeirws?

Er y gall symptomau norofeirws fod yn annymunol, mae'n cael ei ystyried yn haint ysgafn gan nad yw fel arfer yn para'n hir ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwella heb driniaeth feddygol.

Rydych chi'n fwyaf tebygol o ddal norofeirws drwy ddod i gysylltiad â pherson sydd wedi'i heintio, ond mae bwyd wedi'i halogi hefyd yn gallu ei ledaenu.

Prif symptomau norofeirws yw:

- teimlo'n sâl (cyfog)
- dolur rhydd
- bod yn sâl (chwydu)

## Beth alla i ei wneud i atal norofeirws rhag lledaenu yn fy musnes bwyd?

Fel gyda'r rhan fwyaf o bathogenau a gludir gan fwyd, gall dilyn arferion hylendid personol da, gan gynnwys golchi dwylo'n effeithiol, atal trosglwyddo norofeirws i eraill.

Dylai unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliadau bwyd fod yn iach i weithio. Ni ddylai staff sydd â dolur rhydd neu sy'n chwydu ddychwelyd i'r gwaith hyd nes nad oes ganddynt unrhyw symptomau am 48 awr.